Newyddion 2021 Newsletter

The Society For Welsh Traditional Instruments

Cymdeithas Offerynnau Traddodiadol Cymru

Clera yn Sain Ffagan 15-3-2020 Clera at St Fagans

Dathlu 25 mlynedd
Celebrating 25 years

www.clera.org **www.alawoncymru.com**
www.sesiwn.com **www.telynor.cymru**

25 mlynedd yn chwarae'n cerddoriaeth

Mae'n anffodus na ellwyd dathlu 25ain blwyddyn Clera mewn ffordd arferol oherwydd pandemig Covid. Dim ond un digwyddiad sylweddol a gynhaliwyd yn 2020/2021 sef Perfformiad Gwerin Gwent yn Sain Ffagan ar Fawrth 15fed oedd yr unig ddigwyddiad sylweddol. Roedd pryderon Covid yn cynyddu a dim ond 20 cerddor a berfformiodd, tipyn yn llai na'r gorffennol pan oedd 40 neu fwy yn bresennol. Fe wnaeth cyfyngiadau'r llywodraeth atal gweithgareddau Clera'n llwyr gan gynnwys y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y flwyddyn honno.

Serch hyn, paratowyd llyfr **Alawon Sesiwn 3**, trydydd llyfr o setiau o'r wefan gydag 82 alaw mewn 28 set ac argraffwyd llyfrau A5 ym mis Ebrill 2021 ac A4 ym mis Gorffennaf.

Hefyd, dathlodd gwefan **alawoncymru.com** dengmlwyddiant eleni. Mae'n cynnwys dros 128 set, yn cynnwys dros 350 o alawon. Derbynia'r wefan ar gyfartaledd 200 ymwelydd yn gwylio 400 tudalen gyda dros 1000 traw bob dydd. Wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen, manteisiodd rhai aelodau Clybiau Alawon ar gyfleuster cyfarfod ar-lein Zŵm a alluogodd chwaraewyr i weld ei gilydd a chwarae gydag arweinydd y set, gyda'r holl gyfranogwyr eraill fudo eu meicroffonau. Yn amgylchedd rhithwir Eisteddfod 2021, darparodd Clera dair sesiwn o'r fath ac rydym yn gobeithio ddefnyddio'r dull hwn yn fwy yn y dyfodol.

Ein degawd cyntaf, 1996-2006: gosod sylfaen y gymdeithas

Ym mis Medi 1994 aeth Stephen Rees i Newcastle ar gyfer rhaglen deledu i weld cyfraniad pwysig y mudiad *Folkworks* trwy weithdai undydd a enwyd yn 'Workouts'. Roedd nifer o'r rhain yn canolbwyntio ar y traddodiad offerynnol, pwyslais oedd yn gymharol brin yng Nghymru ar y pryd. Gan ddilyn yr enghraifft hwn, trefnwyd y *Gweithdy Gwerin* cyntaf ym mis Ebrill 1995, gyda Robin Huw Bowen (telyn deires), Andy McLauchlin (ffliwt/chwiban), Stephen Rees a Huw Roberts (ffidil) a Llio Rhydderch (telyn bedal) yn diwtoriaid. Trefnwyd gweithdy gwerin arall yn y Bontfaen yng Ngwanwyn 1996, gyda chymorth y delynores leol Elonwy Wright ac fe lansiwyd COTC, Cymdeithas Offerynnau Traddodiadol Cymru yn swyddogol yn Eisteddfod Genedlaethol Llandeilo fis Awst 1996.

Ym mis Gorffennaf 2003 newidiwyd enw'r gymdeithas i **Clera,** sy'n haws ei ynganu (na Cot-cy!) a cytunwyd ar gyfansoddiad newydd a logo newydd. Prif waith y gymdeithas o'r dechrau oedd trefnu gweithdai mewn gwahanol rannau o'r wlad i gynyddu'r diddordeb ac i gynnig hyfforddiant gan chwaraewyr profiadol.

Yn 2006, i ddathlu dengmlwyddiant y gymdeithas, cynhaliwyd cyngerdd yn y Galeri, Caernarfon i roi llwyfan i'r doniau a gafodd eu meithrin yn y gweithdai ar hyd y blynyddoedd. Daeth 40 o gerddorion gwerin ynghyd i ffurfio **Clerorfa,** cerddorfa werin gyntaf Cymru a chafwyd ymateb brwd o bob cyfeiriad i'r noson.

25 years of playing our Welsh traditional music

It is unfortunate that the 25th year of Clera could not be celebrated in a normal way because of the Covid pandemic. Just one event took place in 2020/2021: the Gwerin Gwent performance at St Fagans on March 15th. Covid concerns were rising and just before lockdown, only 20 musicians performed, as compared with previous performances when 40 or more were present. The government restrictions due to the outbreak stopped Clera's public and social activity including the Annual General Meeting that year.

Alawon Sesiwn 3, our third book of sets of tunes for sessions was prepared in 2020 with 82 tunes in 28 sets, gathered from the monthly sets and published in A5 format in April 2021 and in A4 format in July.

2021 marks 10 years of monthly sets on **alawoncymru.com** which now holds 128 sets with over 300 tunes. Its daily average of visitors is around 200, viewing 400 pages and making over 1000 hits per day.

As the year progressed, members in some Tune Club groups took advantage of the on-line meeting facility provided by Zoom which enabled players to see each other and play with whoever chose to lead a set; all other participants have to mute their microphones because of timing delays in Zoom. In the virtual environnment of Eisteddfod 2021, Clera provided three Zoom sessions and we hope to make more use of this approach in the future.

www.clera.org provides general information including features on Welsh traditional instruments, our history, constitution and privacy policy. It averages over 100 hits per day.

Our first decade, 1996-2006: establishing the society

In September 1994 Stephen Rees went to Newcastle to see the important contribution of the Folkworks movement through one-day workshops called 'Workouts', focused on the instrumental tradition, something rare in Wales at the time. Consequently the first Gweithdy Gwerin (folk workshop) was organized in April 1995, with Robin Huw Bowen (triple harp), Andy McLauchlin (flute / whistle), Stephen Rees and Huw Roberts (violin) and Llio Rhydderch (pedal harp) as tutors . Another was organised in Cowbridge in the Spring of 1996, with harpist Elonwy Wright and at the Llandeilo National Eisteddfod in August 1996. In July 2003 the society's name was changed to Clera, which is easier to pronounce than the Welsh acronym COTC and a new constitution and logo were agreed. The society's main task from the beginning was to organise workshops in different parts of the country to increase interest and to offer training from experienced players.

Degawd y Glerorfa a gweithdai 2006-2016: cyflwyno'n halawon yn eang

Ffurfiwyd y Glerorfa, cerddorfa Clera mewn pryd i ymarfer er mwyn ddathlu deng mlwyddiant sefydlu Clera . Nod y Glerorfa oedd cyflwyno alawon traddodiadol Cymru mewn dull newydd a bywiog er mwyn hybu'r brwdfrydedd dros ddiwylliant cerddorol Cymreig yng Nghymru a thu hwnt. Cynhwysa'r Glerorfa ffidlau, telynau, ffliwtiau ac ambell sachbib neu bibgorn, yn wahanol iawn i gerddorfeydd arferol heb arweinydd na cherddoriaeth o flaen chwaraewyr, gan chwarae'r alawon o'u cof. Daeth yr aelodau o bob cwr o Gymru a chafodd derbyniad da iawn yn y blynyddoedd wedyn, yn Sesiwn Fawr Dolgellau, yn yr Ŵyl Pan-Geltaidd yn Lorient ac yng Nghanolfan y Mileniwm ac ar draws Gymru hyd at Hydref 2015. Sefydlwyd gwefan **clera.org** yn ystod y cyfnod hyn; ceir restr o holl gyngherddau'r Glerorfa arni a hefyd gwybodaeth gyffredinol am y gymdeithas a'n hofferynnau.
Ehangwyd y gweithdai dros Gymru drwy gynllun **Sesiwn Dros Gymru** a redodd drwy 2012 gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru. Sefydlwyd gwefan **sesiwn.com** i gyflwyno manylion gweithdai arni er mwyn eu hysbysu, ac fe gynhaliwyd 58 gweithdy ledled Cymru yn ystod y flwyddyn.
Dilynwyd hyn gan gynllun **Alawon Cymru** yn 2013, eto gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru, gan gynnal gweithdai pellach er mwyn hyrwyddo datblygiad Clybiau Alawon lleol fel y gallai cerddorion ddod at ei gilydd i ddysgu a chyd-chwarae yn eu hardal leol. Sefydlwyd gwefan **alawoncymru.com** yn rhan pwysig o'r cynllun.
Dyma gipluniau o'r wefan, yn dangos pen y dudalen am Set Mawrth 2021, gydag alaw Dydd Gŵyl Dewi yn dechrau'r set. Nodir y gellir clywed yr alaw, gyda chyfeiliant yn ogystal â darllen y gerddoriaeth amdani.

www.alawoncymru.com

Cynhaliwyd 46 gweithdy ar draws Cymru i hyrwyddo'r datblygiad gan gyflogi 29 o gerddorion gwerin i'w harwain.

In 2006, celebrating the society's 10th birthday, a concert was held at the Galeri, Caernarfon, to showcase the talents that had been nurtured in the workshops over the years. Forty-two folk musicians came together to form 'Clerorfa' - Wales' first folk orchestra and the evening which included singing and dancing was recorded and a great success.

Y Glerorfa, workshops and tune clubs, 2006-2016: spreading the news

Y Glerorfa, our folk orchestra was formed in 2006 for the tenth anniversary concert of Clera with the aim of presenting Wales' traditional melodies in a new and exciting manner and to promote Welsh musical culture in Wales and beyond. It differed from ordinary orchestras, having no conductor and no musical scores: fiddles, harps, flutes and the occasional bagpipe and pibgorn. Its members came from all over Wales and it was very well received in performances at Sesiwn Fawr Dolgellau, the Pan-Celtic Festival in Lorient in 2008, the Wales Millennium Centre and across Wales until October 2015.

Clera's website **clera.org** was established during this time; it lists the Clerorfa concerts and provides general information about the society and our traditional instruments.

The workshops across Wales were expanded through the **Sesiwn dros Gymru** project which ran the whole year of 2012 with the support of the Wales Arts Council Wales. The **sesiwn.com** website was set up to publicise the forthcoming new workshops and also to support existing sessioins. In total, 58 workshops were held across Wales.

Sesiwn dros Gymru was followed by the **Alawon Cymru** Project in 2013, again with Wales Arts Council support. It established the website **alawoncymru.com** as a learning resource and built on the programme of workshops to help develop local Tune Clubs manage their own development, enabling groups of musicians to meet in their local area to learn and play together.

Daeth clybiau alawon De-ddwyrain Cymru at ei gilydd i gyflwyno sesiwn yn Tŷ Gwerin yn Eisteddfod Genedlaethol y Fenni yn 2016. Datblygodd Grŵp Gwerin Gwent o hyn i ffurfio cnewyllyn y gerddorfa gwerin sydd wedi perfformio yn Sain Ffagan er 2018. Erbyn hyn mae'r clybiau yn trefnu perfformiadau eu hunain yn eu hardaloedd lleol.

Yn dilyn hwn, rhedwyd ymgyrch **Telynor Cymru 2016** dan arweiniad yr arbenigydd heb ei ail ar delyn y sipsiwn, Robin Huw, cynllun dwy flynedd o weithdai dysgu techneg y delyn sipsiwn, eto dan nawdd Cyngor Celfyddydau Cymru. Dathlodd y cynllun deuganmlwyddiant enedigaeth y telynor sipsiwn enwog John Roberts, 'Telynor Cymru' yn 1816, drwy hyfforddi telynorion ledled y wlad i chwarae yn null y sipsiwn, gan orffen y cynllun gyda pherfformiadau dros Gymru. Cynhaliwyd 61 gweithdy ledled Cymru a sefydlwyd gwefan **telynor.cymru** i gynnwys gwersi fideo a cherddoriaeth yn dangos yn benodol y nodau i gyflwyno'r alawon yn null y sipsiwn. Mae'r wefan yn awr ar agor i bawb, heb angen cyfrinair, yn adnodd dysgu sy'n ganlyniad hir-dymor i'r cynllun.

Cyhoeddwyd Clera llyfrau a CDs yn ystod y cyfnod hwn: llyfr **Hobed** a'r CD **Y Glerorfa** o alawon Clerorfa mewn setiau, a **Pwt-ar-y-bys**, y llyfr a'r CD cysylltiedig o alawon dechreuwyr, ac **Alawon Sesiwn**. yn cyflwyno setiau alawon o wefan **alawoncymru.com**. Cyhoeddwyd **Alawon Sesiwn 2** ac **Alawon Sesiwn 3** yn fwy diweddar.

Datblygu'n Ddigidol 2011-2021: manteisio ar y we

Mae'r pandemig Covid wedi rhoi cyfle i ni edrych yn ôl ar sut mae Clera wedi datblygu dros y blynyddoedd a sut mae'n debygol o ddatblygu ymhellach, o ganlyniad i'r atebion ymarferol a esblygodd i'r ynysu gorfodol annisgwyl a rhoddodd stop ar ein gweithgareddau arferol.

Pum mlynedd ar hugain ar ôl sefydlu Clera yn ei enw gwreiddiol, COTC, mae'r gymdeithas wedi tyfu ac esblygu i fod yn rhwydwaith cymorth traws-Gymru gyda phedair gwefan i ddysgu'r delyn, dysgu alawon, darganfod cyfarfodydd Clybiau Alawon, sesiynau a digwyddiadau eraill dros Gymru, a gwybod mwy am yr offerynnau eu hunain a'n sefydliad.

Mae'r dechnoleg ddigidol yn cael ei defnyddio fwyfwy wrth ddilyn ein nod. Rydym yn hyrwyddo ac yn cefnogi chwarae cerddoriaeth draddodiadol Gymraeg gan chwaraewyr o bob oed sydd ag ystod eang o alluoedd ar draws y byd. Fodd bynnag, yn unol â'r symudiadau rhyngwladol i leihau'r defnydd o ynni diangen, mae ein gweithgareddau corfforol bellach yn lleol ar y cyfan, gyda digwyddiadau cenedlaethol yn achlysurol, fel er enghraifft ein presenoldeb yn Nhŷ Gwerin yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

As a result of the Alawon Cymru project, the South East Wales tunes clubs came together to deliver a session at Tŷ Gwerin at the National Eisteddfod in Abergavenny in 2016 and the Gwerin Gwent Group developed and subsequently formed the nucleus of the folk orchestra which has performed at St Fagans since 2018. The clubs now organise their own performances in their local areas.
Following this, a two-year program of workshops to learn the technique of the gypsy harpists began in 2015, again with the support of the Arts Council of Wales, The **Telynor Cymru 2016** project, led by our member and outstanding exponent Robin Huw Bowen, celebrated the birth in 1816 of the celebrated gypsy harpist John Roberts, with performances of the harpists from Wales as a fitting conclusion. A total of 61 workshops were held across Wales and the **telynor.cymru** website with lessons on video and music scores was set up and is now a learning resource for harpists, a lasting outcome of the scheme.
Clera's first publications were published during this period: **Hobed**, the book and the CD **Y Glerorfa** of Clerorfa tunes in sets and **Pwt-ar-y-bys**, the book and associated CD of beginners' tunes, and **Alawon Sesiwn** presenting a collection of the monthly session sets in **alawoncymru.com**. The **Alawon Sesiwn 2** and **Alawon Sesiwn 3** tune books followed.

Our Digital Decade. 2011-2021: exploiting the world-wide web
The Covid pandemic has provided the opportunity to look back at how Clera has developed over these years and how it is likely to develop further as a result of the practical solutions which evolved after forced isolation unsurprisingly put a stop to our normal activities.
Twenty-five years on from the establishment of Clera on the foundations of COTC (Cymdeithas Offerynnau Traddodiadol Cymru), the society has grown and evolved into a cross-Wales support network with four websites dedicated to learning the tunes, listings of meetings of Tune Clubs, Sessions and other events, and information on the instruments themselves and our organisation.
There is an increasing exploitation of digital technology in pursuing our aim. We promote and support the playing of Welsh traditional music by players of all ages with a wide range of capabilities, wherever they might be in the world through our websites. Welsh traditional music is available to all. but in keeping with the international intention of to reducing unneccessary energy consumption, our physical activities are now predominantly local, with national events such as our presence in Tŷ Gwerin at the National Eisteddfod and larger performances less propminant in our activities.

Cyhoeddiadau - Clera - Publications

Y Glerorfa – yn fyw
CD
£6 (pris aelod £5)





Pwt-ar-y-bys
Llyfr a 2 CD
£12 (pris aelod: £10)

Alawon Sesiwn 1,2,3
+ cefnogaeth ar-lein ar
www.alawoncymru.com
£6 yr un (aelod £5)
£11 am ddau (aelod £9)
£15 y tri (aelod £12)



Hobed
Llyfr alawon Y Glerorfa
£6
(pris aelod £5)

Drwy'r post, ychwaneger £3 cludiant
Mail order, please add £3 postage

Clera, 57 Beulah Road, Caerdydd/Cardiff CF14 6LU